Met Office



# Beth yw cymylau?

**Trosolwg**

Beth yw cymylau? Sut maen nhw'n ffurfio? Yn y gweithgaredd hwn byddwch chi'n dysgu'r atebion i'r cwestiynau hyn ac yn darganfod sut i adnabod cymylau. Yna cewch gyfle i wneud eich ysbienddrych sbotio cymylau eich hun, a gwylio'r cymylau yn mynd heibio, trwy fynd allan i'r awyr agored neu edrych allan o'ch ffenestr.




**Amser gofynnol**

60 munud

**Deunyddiau gofynnol**

- Tiwbiau rholiau toiled x2
- Deunydd crefft amrywiol
- Gwlân cotwm neu bapur sidan
- Selotep
- Canllaw sbotio cymylau (Gallwch chi ddod o hyd iddo yma)
- Rhyngrwyd



## Camau'r gweithgaredd

**01** **Beth yw cymylau?**

Mae cymylau yn un o ryfeddodau natur sydd i'w gweld yn fwyaf cyson a gallan nhw hefyd ddweud llawer wrthym am yr hyn sy'n digwydd yn yr atmosffer. Felly, beth yw cymylau? Mae cymylau yn cynnwys llawer o ddefnynnau dŵr bach neu ronynnau iâ yn arnofio yn yr awyr ar wahanol uchderau.

Wrth i'r haul gynhesu dŵr, mae'n troi'n nwy anweledig o'r enw anwedd dŵr, gelwir hyn yn anweddiad. Po uchaf i fyny yr ewch yn yr atmosffer, yr oeraf yw'r tymheredd, felly wrth i anwedd dŵr godi mae'n oeri. Yn y pen draw, mae'n dod yn ddigon oer i droi yn ôl yn ddŵr ac mae cwmwl yn ffurfio, y gallwn ni ei weld yn yr awyr. Mae cymylau yn gynhesach na'r aer o'u cwmpas, sy'n golygu eu bod yn arnofio oherwydd bod aer cynnes yn ysgafnach nag aer oer. Mae hyn oherwydd pan fydd anwedd dŵr yn oeri i ddefnynnau dŵr mae ychydig bach o wres yn cael ei ryddhau. Gwyliwch y fideo i egluro hyn ychydig ymhellach.

> **Awgrym**
> Beth am geisio gwneud cwmwl gartref? Gallwch chi ddod o hyd i'r ddolen yma ar ein arbrawf gwneud cwmwl.

**02** **Ymchwil a lluniau cymylog (gwlân cotwm, papur, glud, rhyngrwyd)**

Gwyliwch y fideo canllaw i ganfod cymylau sydd i'w weld yma a chan ddefnyddio'r ddalen adnabod cymylau y gellir ei lawrlwytho yma. dechreuwch feddwl pa gymylau yr hoffech chi eu gwneud.

- Casglwch ychydig o bapur sbâr (glas os gallwch chi) a gwlân cotwm.
- Dechreuwch trwy rwygo'r gwlân cotwm yn ddarnau llai fel bod gennych ddigon i'w ddefnyddio.
- Gan ddefnyddio'r ddalen adnabod cymylau, a allwch chi ddewis rhai gwahanol fathau o gymylau yr ydych chi am eu gwneud? Pa siapiau a ffurfiau mae'r cymylau gwahanol yn eu gwneud?
- Crëwch y cymylau trwy rwygo'r gwlân cotwm i wahanol siapiau a'u gludo ar eich dalen o bapur.
- Labelwch y cymylau gyda'u henwau ar waelod y llun.

> **Awgrym**
> Edrychwch ar-lein, a allwch chi ddarganfod unrhyw fathau eraill o gymylau na chawsant eu crybwyll yn y fideo? Ceisiwch ddefnyddio'r gwlân cotwm i wneud a labelu y rhai newydd rydych chi'n dod o hyd iddyn nhw. Os hoffech chi ymchwilio i ragor o wybodaeth am gymylau, gallwch edrych yma.





## 03 Creu eich pâr eich hun o ysbienddrych cwmwl i fynd i weld cwmwl

- Casglwch ddau ddaliwr rholiau toiled gwag.
- Gan ddefnyddio tâp, rhowch y ddau ddaliwr rholiau toiled at ei gilydd a'u tâpio o gwmpas y canol.
- Os dymunwch, gallwch hefyd ychwanegu darn ychwanegol o gerdyn bach dros ben y ddau silindr i'w cadw'n fwy diogel gyda'i gilydd.
- Dylai fod gennych siâp sbienddrych y gallwch chi weld drwyddo.
- Gan ddefnyddio detholiad o ddeunyddiau addurnwch eich sbienddrych, byddwch yn greadigol!

**Awgrym**
Fe allech chi hefyd ychwanegu rhywfaint o linyn i bob pen i'r sbienddrych fel y gallwch chi eu cael nhw o amgylch eich gwddf, yn barod i baratoi i archwilio'r awyr!

## 04 Canfod cymylau

Gadewch i ni roi eich gwybodaeth ar brawf trwy fynd i mewn i'ch gardd neu edrych allan o'ch ffenestr gyda'ch ysbienddrych cymylau.

Gan ddefnyddio'r ddalen adnabod cymylau, a allwch chi weld y gwahanol fathau o gymylau yn yr awyr? Gwnewch restr o'r holl wahanol fathau y gallwch chi eu gweld. A oes unrhyw siapiau anarferol y mae'r cymylau yn eu gwneud nad ydynt ar eich dalen adnabod cymylau?

Byddem wrth ein bodd i weld yr hyn a ddarganfyddwch felly trydarwch ni gyda'ch luniau cymylau a darganfyddiadau canfod cymylau @metofficelearn. Os byddwch chi'n darganfod unrhyw beth anarferol, gadewch i ni weld a allwn ni ei adnabod gyda'n gilydd.


© Hawlfraint y Goron 2019, Y Swyddfa Dywydd 01248